# Yn awr yn fwy nag erioed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



## LLES PLANT

*calon dysgu seiliedig ar chwarae*

Mae dysgu seiliedig ar chwarae yn helpu plant...

- i greu cyfeillgarwch a mwynhau perthnasoedd cadarnhaol
- i wrando ar eu hemosiynau a'u hanghenion, a theimlo'n dda amdanynt eu hunain
- i gyfathrebu ag eraill a mynegi eu hunain
- i ddatblygu annibyniaeth a chymryd cyfrifoldeb
- i gysylltu â natur
- i fod yn fywiog ac egnïol, yn dawel ac yn llonydd
- i fod yn agored i brofiadau newydd
- i fod yn ddatryswyr problemau ac yn feddylwyr gwych
- i ddychmygu, dyfeisio a chreu
- i archwilio a gwneud synnwyr o'r byd



## Pa fath o chwarae mae'ch plentyn yn ei fwynhau?

- creadigol?
- tawel ac yn canolbwyntio?
- corfforol?
- adeiladu?
- chwarae rôl?

## Pa fath o chwarae ydych chi'n ei fwynhau gyda'ch plentyn?

- rhywbeth creadigol, fel gwneud model allan o sbwriel, te parti neu chwarae siop.
- rhywbeth y tu mewn neu tu allan i'r cartref, fel adeiladu ffau.
- rhywbeth y gwnaethoch chi ei fwynhau o'ch plentyndod, fel 'hopscotch' neu 'Simon says'.
- rhywbeth sy'n datblygu eu gallu i ganolbwyntio, fel helfa drysor.
- rhywbeth heddychlon ar gyfer tawelu, fel chwarae 'I spy', neu llunio ac adrodd straeon.
- rhywbeth hwyliog i ollwng stêm, fel 'mae'r llawr yn lafa' neu chwarae di-drefn corfforol.
- rhywbeth sy'n meithrin ffordd iach o fyw, fel adeiladu cwrs rhwystrau.

## Pryd mae'ch plentyn yn gofyn ichi ymuno yn ei chwarae?

A oes amser arbennig bob dydd, wythnos neu fis pan fyddwch chi'n treulio amser gyda'ch gilydd?

efallai...

- byddan nhw eisiau eich sylw - oherwydd bod bywyd yn brysur!
- bod ganddyn nhw rywbeth i'w ddangos i chi a'ch gwneud chi'n falch.
- bydd angen eich cefnogaeth arnyn nhw i wneud rhywbeth neu gwella rhywbeth
- bod ganddyn nhw hoff gêm neu weithgaredd maen nhw'n gofyn i chi ei wneud gyda'ch gilydd

## Ym mha ffyrdd ydych chi'n cymryd rhan yn chwarae eich plentyn?

efallai byddwch...

- yn eu gwahodd i chwarae rhywbeth gyda chi
- yn awgrymu rhywbeth newydd iddyn nhw roi cynnig arno gyda chi
- yn ymuno yn eu gemau dychmygol fel cymeriad newydd
- yn sylwi ar yr hyn maen nhw'n ei wneud ac yn rhoi sylwadau arno
- yn dangos ffordd newydd iddyn nhw wneud rhywbeth
- yn dyfeisio neu'n creu rhywbeth gyda'ch gilydd sy'n cymryd amser

## Beth ydych chi'n ei ddysgu am eich plentyn pan fyddwch chi'n ei wylio yn chwarae?

Efallai sylwch eu bod ...

- yn siaradus ac yn llawn mynegiant (iaith a geirfa)
- yn fwy mentrus (cryfder ac ystwythder)
- yn garedig ac yn ofalgar (cymdeithasol)
- yn hapus! (lles)
- â dychymyg gwych a syniadau creadigol (creadigrwydd)
- yn caru natur ac yn gofalu am y byd o'u cwmpas (eco-ymwybyddiaeth)
- yn gallu datrys problemau a dilyn cynlluniau (rhesymeg a phatrymau)
- yn dyfeisio pethau ac yn rhoi eu syniadau ar waith (dylunio a deheurwydd)